



Wrth iddynt 'ddod yn fwy medrus

Fi ataf Ti ataf Fi

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

Anogwch y plant i archwilio'r canlynol:

- Gweithio fel pâr i anfon a chael pêl dros y bwllch/rhwyd, a phob plentyn yn aros yn ei 'ochr/hanner' ef o'r 'ar-dd'
- Gweithio fel pâr. Mae 'A' yn anfon pêl yn erbyn wal er mwyn i 'B' ei chael. Mae 'B' yn anfon y bêl yn ôl yn erbyn y wal, ac mae 'A' yn ei chael
- Cydweithio i ddechrau, ac yna cystadlu yn erbyn ei gilydd i sgorio pwyntiau. Dylai'r plant benderfynu sut y caiff pwyntiau eu hennill, pwy sy'n dechrau, sut mae'n rhaid anfon a chael y gwrthrych, sawl gwaith y caiff y gwrthrych fownsio (os o gwbl), faint o bwyntiau sydd eu hangen arnynt i ennill, neu a fyddant yn cystadlu yn erbyn y cloc neu'n ceisio cwblhau ralfiau o hyd penodol, ac ati



Adnoddau

- Marcwyr dros dro/marciau sialc
- Amrywiaeth o beli, gan gynnwys balŵns a pheli cadu'n heini
- Amrywiaeth o fatiau, eitemau y gellir eu defnyddio i wthio/llywio
- 'Gardd' wedi'i rhannu'n ddau hanner ar gyfer dau blentyn, a bwllch/'parth dim chwarae' neu rwyd rhwng y ddau: fy 'ochr/hanner' i a'th 'ochr/hanner' di

Gwestiynau

- Pa mor hawdd yw hi i chwarae gan ddefnyddio balŵn?
- Pa reolau y gwnaethoch chi eu llunio ynghylch pwy sy'n dechrau â'r bêl?
- Sut gwnaethoch chi benderfynu ar faint eich bwllch/rhwyd neu'r 'ar-dd'?
- Beth sydd angen i chi ei wneud i fod yn fwy cyfrwys na'ch partner?

Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud
- Rholio, taflu dan ysgwydd, cicio, taflu dros ysgwydd, dal, trapio, taflu â dwy law, bownsio, driblo â'r dwylo, driblo â'r traed, taro gwrthrych â'r dwylo neu fat
- Adlamu, onglau
- Pwyntiau, cystadlu, rali, ymwybyddiaeth ofodol

Cyfleoedd i:

- ddatblygu sgiliau â rheolaeth a sgiliau cydsymud sy'n gwella
- gweithio'n ddiogel gydag eraill wrth ddefnyddio offer
- siarad am yr hyn y maent wedi'i wneud
- gwneud awgrymiadau syml ynghylch sut i wella perfformiad

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod y plant yn gweithio mewn 'gerddi' a bod digonedd o le rhwng pob 'gardd'

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn datblygu sgiliau â rheolaeth a sgiliau cydsymud sy'n gwella?
- Yn gweithio'n ddiogel gydag eraill wrth ddefnyddio offer?
 - Yn siarad am yr hyn y mae wedi'i wneud?
- Yn gwneud awgrymiadau syml ynghylch sut i wella perfformiad?

weithiau

gan amlaf

Anogwch y plentyn i:

- chwarae yn yr un ardal wrth ddefnyddio wal, h.y. fel pe bai'n chwarae sboncen
- defnyddio batiau ag arwynebedd llai
- chwarae â bulch mawr neu rwyd uchel
- amddiffyn ardal fawr
- gwyllo perfformiad rhywun arall a chael rhywun arall i wyllo'i berfformiad ef, a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well, dechrau defnyddio geiriau allweddol. Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella'i sgiliau

Anogwch y plentyn i:

- ymarfer pob agwedd cyn chwarae gêm
- cydweithio â phartner nes ei fod yn ennill mwy o hyder
- chwarae â bulch bach neu rwyd isel
- amddiffyn 'gardd' fach
- cyfeirio at 'waliau geiriau'/geiriau allweddol, a thrafod â phlentyn mwy medrus neu ymarferwr yn gyntaf cyn rhoi adborth

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Modelau rôl/arwy; y cysyniad o chwarae teg, dealltwriaeth o reolau a pham y maent yn angenrheidiol
- Datblygiad Mathemategol: creu ardal chwarae gan ddefnyddio offer mesur a guybodaeth am siapiau 2D